y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 39 | DYDD GWENER, MEDI 25, 2009 | Pris 40c

AMSER DYRCHAFOL!

Donna ac Elinor

Gawsoch chi'r teimlad rhyw dro y buasech yn falch o gyfle i dreulio pedair awr ar hugain mewn lle tawel braf, mewn cwmni difyr, bwyd da wedi ei baratoi ar eich cyfer a chyfle i ymdawelu yng nghwmni Duw? Dyma oedd y profiad a gefais o ganol bore Gorffennaf 7fed hyd amser cinio Gorffennaf 8fed 2009.

Daeth pump o bobl at ei gilydd i Drefeca i dreulio amser yn astudio'r Gair ac mewn myfyrdod a gweddi dawel gyda'r Parchg Eleri Edwards yn ein harwain. Braf oedd cael cwmni Richard Castle, is-reolwr Trefeca, o bryd i'w gilydd, roedd o gymorth mawr ar yr ochr dechnegol a'i gyfraniadau eraill yn werthfawr hefyd.

ENCIL TREFECA
Gorffennaf 2009

Thema'r cyfnod oedd "Chwilia fi O Dduw" o Salm 139. Cafwyd tri sesiwn gyda theitl gwahanol i bob un, "Chwilia fi" yn yr un cyntaf, "Arwain fi" yr ail ac "Y Ffordd Dragwyddol" yn y trydydd, ac un sesiwn pan fuom ar bererindod gan ddefnyddio labrinth.

Cyfle oedd hwn i dreulio amser yn agos at Dduw drwy fyfyrio ar Ei air ac mewn gweddi ddwys. Cyfle sy'n anodd ei gael pan yn ein cartref, gan ein bod yn rhoi blaenoriaeth i alwadau teulu, eglwys a chymdogion yn aml o flaen treulio amser gyda Duw.

Gallaf dystio fod yr amser byr a dreuliais yn Nhrefeca wedi bod yn werthfawr i mi ac yn un y buaswn yn barod Ei gymeradwyo i bob un sy'n darllen yr erthygl hon.

Menna Green.

Gweithwyr prysur Capel y Groes, Wrecsam



Mae'r gweinidog, y Parchg. Robert Parry a nifer o'r blaenoriaid wedi bod wrthi'n brysur yn paentio'r ffenestri a'r gwaith coed er mwyn cadw'r capel mewn cyflwr da.

Profiad dyrchafol mae'n amlwg!

MEDALAU I BEDAIR

Dosbarth Ysgol Sul Capel M.C. Aberffraw, Ynys Môn – y bedair aelod wedi derbyn Medal Gee am wasanaeth oes i'r Ysgol Sul.
O'r chwith i'r dde: Megan Parry (2007), Dilys Jones (2005), Megan Llewelyn Owen (2009) a Glenys Griffiths (2008).